**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO, MEDI 1999 - MEDI 2000**

**Cynllun**


**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

**1. CEFNDIR**

**2. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO**

- Rôl y Pwyllgor Archwilio
- Cyfrifoldebau'r Pwyllgorau Archwilio
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Tystiolaeth ac Adroddiadau

**3. GWAITH Y PWYLLGOR YM 1999 - 2000**

**Archwiliad Ariannol**

- Cyfrifon Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru 1998-99
- Cyfrifon Cryno NHS (Cymru), 1998-99
- Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99

**Gwerth am Arian**

- Diogelu a Chadw Etifeddiaeth Adeiledig Cymru
- Addysg Bellach yng Nghymru
- Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r Gwaith o Greu'r Awdurdod Mwy ei Faint ac Edrych am Arbedion yn y Dyfodol a Chymorth i Fusnesau Cynhenid Cymru
- Coleg Gwent (Sylw gan y Trysorlys ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli a Llywodraethu Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent)
- Argae Bae Caerdydd

**Amcangyfrifon a rhaglen Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2000-2001**

**4. GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL**

**5. CRYNODEB**

**Atodiadau**

Atodiad A: Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio, Mawrth i Hydref 2000
Atodiad B: Y Pwyllgor Archwilio: Cylch Gwaith
Atodiad C: Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio
Atodiad D: Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio, Mawrth i Hydref 2000
Atodiad E: Argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd yn ystod 1999-2000


xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

**RHAGAIR GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Pleser o’r mwyaf yw cyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Pwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn y gwaith o dawelu meddyliau pobl Cymru bod eu harian yn cael ei wario’n briodol ac yn effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar eu cyfer. Rwy’n falch fy mod wedi cael gwahoddiad i arwain Pwyllgor mor bwysig yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynulliad.

Fel rhai sy’n diogelu arian y cyhoedd yr ydym wedi cymryd y cyfle yn ystod y dyddiau cynnar i ddatgan yn glir ein bod yn disgwyl i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol ei hunan, fabwysiadu’r safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Fe’i gwnaed yn glir hefyd, o’r cychwyn cyntaf, ein bod yn gobeithio y byddai ein trafodaethau yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at sicrhau’r gwerth gorau posibl am arian y trethdalwyr.

Mae’r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourne, ac i Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru am eu gwaith caled sydd wedi’i gwneud yn bosibl i ni ystyried llawer o agweddau pwysig ar fywyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi’n fawr agwedd bositif ac adeiladol yr holl swyddogion sydd wedi ymddangos ger ein bron. Yr ydym bob amser wedi bod yn awyddus i gydnabod gwaith da; a hefyd i nodi pryd y gellir gwneud pethau’n well neu’n wahanol er mwyn sicrhau mwy o werth am arian y trethdalwr. Rwy’n hynod falch bod pob un o’n hargymhellion wedi’u cymeradwyo gan Gabinet y Cynulliad.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn llym wrth sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio’n iawn ac yn drylwyr. Mae angen i bobl Cymru deimlo’n hyderus bod eu harian yn cael ei wario’n ddoeth ac yn dda. Rwy’n edrych ymlaen at her y flwyddyn nesaf gyda brwdfrydedd.

**Janet Davies, AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio’r Cynulliad Cenedlaethol**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO, MEDI 1999 - MEDI 2000

### 1. CEFNDIR

1.1 Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith y Pwyllgor Archwilio, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 12.2 Mae'r adroddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Pwyllgor ac yn rhoi gwybodaeth am waith ei flwyddyn gyntaf.

### 2. RÔL A CHYFRIFOLDEBAU'R PWYLLGOR ARCHWILIO

#### Rôl y Pwyllgor Archwilio

2.1 Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n iawn ac yn drylwyr. Nodir ei gyfrifoldebau yn fanwl yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 (Atodiad A) (y Ddeddf) ac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad (Atodiad B). Ceir rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn Atodiad C.

#### Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio

2.2 Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yn Rheol Sefydlog 12 (Atodiad B). Swyddogaeth y Pwyllgor, yn fras, yw craffu ar adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol), ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar archwiliadau ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (hy gwerth am arian) y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill wrth ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni'u swyddogaethau. Prif bwrpas y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yn cadw at y safonau uchaf posibl wrth reoli eu hadnoddau ariannol.

2.3 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn ffordd amhleidiol, heb gwestiynu gwerth amcanion polisi. Mae'n canolbwyntio ar ofyn a yw'r sefydliadau dan sylw wedi rhoi ystyriaeth ddilys i reoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian wrth roi eu polisïau a'u rhaglenni ar waith.

2.4 Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am ystyried yn flynyddol amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i dreuliau am y flwyddyn ddilynol ac am gyflwyno'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad. Wrth iddo ystyried yr amcangyfrif, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried rhaglen arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi ystyriaeth i farn y Pwyllgor wrth lunio'i raglen yn derfynol.

2.5  Ym mhennod 3, ystyrir gwaith y Pwyllgor ym mhob un o’r meysydd hyn.  Mae *An Introduction to the Audit Committee,* sy’n darparu gwybodaeth fanylach am gyfrifoldebau a gweithdrefnau’r pwyllgor, ar gael ar fewnrwyd y Cynulliad.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

2.6  Mae adran 102 o Ddeddf 1998 yn caniatáu i’r Pwyllgor Archwilio gymryd tystiolaeth ac adrodd i’r Cynulliad ar sail adroddiadau a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.  Golyga hyn bod perthynas waith glòs rhwng y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Syr John Bourn.  Ei waith ef yw’r dechreubwynt ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ei hunan ac mae’n helpu’r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru i sicrhau gwerth am arian yn eu gwaith ac mae’n eu helpu i sicrhau bod eu materion ariannol yn cael eu rheoli mewn ffordd reolaidd a phriodol.  Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn darparu adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar werth am arian i’r Pwyllgor Archwilio fel man cychwyn i’w harchwiliadau.

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru**

2.7 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw’r prif gorff archwilio yn y sector cyhoeddus sy’n archwilio cyfrifon adrannau Llywodraeth y DU a nifer o gyrff cyhoeddus eraill.  Gall hefyd gynnal astudiaethau Gwerth am Arian o’r cyrff hynny.  Mae’n darparu cyngor, gwybodaeth a sicrwydd annibynnol i’r Senedd ar y modd y defnyddir cyllid cyhoeddus.  Mae Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn ymgymryd â’r gwaith archwilio ariannol ac yn cynnal archwiliadau gwerth am arian ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac yn darparu cymorth gweinyddol ar ei gyfer.  Mae staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydweithio’n glòs â’r Pwyllgor Archwilio, gan ddarparu cymorth gweinyddol ar gyfer ei sesiynau tystiolaeth.

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

2.8 Mae perthynas glòs hefyd rhwng y Pwyllgor Archwilio a’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn San Steffan, sy’n cyflawni rôl debyg ar gyfer Senedd y DU.  Mae’r Pwyllgor Archwilio yn ddiolchgar iawn i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ei barodrwydd i ganiatáu i’r Pwyllgor gymryd tystiolaeth ar gyfrifon a oedd yn perthyn i’r cyfnod cyn datganoli.  Rhoddodd hyn gyfle, yn y dyddiau cynnar, i’r Pwyllgor ystyried safonau rheoli arian yng Nghymru.

**Tystiolaeth ac Adroddiadau**

2.9  Ar ôl ystyried adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, bydd y Pwyllgor Archwilio, fel rheol, yn clywed tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifo (hy yr Uwch Was Sifil â chyfrifoldeb personol am y gwariant perthnasol) y corff dan sylw i ystyried materion sydd wedi’u tanlinellu yn yr adroddiad.  Bydd y Pwyllgor Archwilio wedyn yn llunio ei adroddiad ar sail y casgliadau.

2.10. Caiff adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio eu cyflwyno gerbron y Cynulliad a rhaid i’r Cabinet ymateb o fewn mis. Hyd yma, mae’r Pwyllgor wedi cyhoeddi pum adroddiad. Ceir manylion y rhain yn Atodiad 5.

## 3. GWAITH Y PWYLLGOR YM 1999-2000

### Archwiliad Ariannol

3.1 Caiff y cyfrifon blynyddol a baratoir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff eraill sy’n cael eu noddi a’u hariannu gan y Cynulliad eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar ôl eu harchwilio, caiff y cyfrifon ar gyfer 1999-2000, blwyddyn lawn gyntaf y Cynulliad, eu cyflwyno gerbron y Cynulliad yn ystod 2000-2001.

3.2 Paratowyd cyfrifon 1998-1999 y Swyddfa Gymreig a’i chyrff cyhoeddus anadrannol ym 1999-2000. Gan eu bod yn perthyn i’r cyfnod cyn datganoli, fe’u harchwilwyd gan y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol a’u cyflwyno gerbron y Senedd. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y gallai’r Pwyllgor Archwilio glywed tystiolaeth ar ddau o’r adroddiadau hyn: cyfrifon cryno’r NHS; a chyfrifon Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Rhoddodd hyn gyfle, yn y dyddiau cynnar, i’r Pwyllgor Archwilio ystyried materion archwilio ariannol. Yn ogystal, lluniodd yr Archwilydd Cyffredinol “Adroddiad Cyffredinol” yn crynhoi casgliadau gwaith archwilio ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Cyfrifon Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru 1998-99

3.3. Wrth archwilio cyfrifon 1998-99 Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, sylwodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar daliad afreolaidd i gyn Gyfarwyddwr Cynorthwyol. Nid oedd y swm dan sylw yn ddigon mawr i gyfiawnhau archwiliad. Fodd bynnag, ystyriwyd bod egwyddor y peth yn teilyngu ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio. Rhoddodd hyn gyfle, yn y dyddiau cynnar, i’r Pwyllgor nodi’r egwyddorion a’r safonau yr oedd yn eu disgwyl gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru.

3.4 Yng ngoleuni tystiolaeth gan gyn Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr presennol yr Amgueddfa Genedlaethol, nododd Adroddiad y Pwyllgor:

> *"Yr achos hwn oedd y cyfle cyntaf a roddwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru archwilio mater o reoleidd-dra a phriodoldeb ariannol. Yr ydym yn gobeithio na fydd gwrandawiadau o’r fath yn ddigwyddiad cyffredin.*
>
> *Yr ydym yn derbyn bod gan yr achos hwn nifer o nodweddion anghyffredin ac eithriadol…...Yr ydym yn cydnabod hefyd fod Cyfarwyddydd presennol yr Amgueddfa a swyddogion y Cynulliad wedi cymryd nifer o fesurau i helpu i atal y sefyllfa anffodus hon rhag digwydd*

*eto.  Er hynny, yr ydym yn dymuno ei gwneud yn hollol glir o’r cychwyn cyntaf ein bod yn disgwyl i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cynulliad ei hun, ymddwyn yn ôl y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol ac i weithredu o fewn eu pwerau statudol a’u hawdurdod dirprwyedig.  Byddai gwneud fel arall yn dwyn anfri ar y corff o dan sylw a byddai hefyd yn tanseilio hygrededd ac enw da’r sector cyhoeddus yng Nghymru.  Ni ellir caniatáu hyn i ddigwydd."*

3.5 Derbyniodd Cabinet y Cynulliad ddeg argymhelliad yr adroddiad a rhoddodd gymeradwyaeth lawn i’r hyn y mae’r Pwyllgor yn ei ddisgwyl gan gyrff cyhoeddus. Cynigiodd y Cynulliad nifer o fesurau i atal taliadau afreolaidd o’r fath rhag digwydd eto, gan gynnwys adolygu’r Memoranda Ariannol ar gyfer cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad,  gwella’r hyfforddiant ar gyfer eu swyddogion cyfrifo, llunio Cod Ymarfer ar gyfer staff cyrff cyhoeddus ac adolygiad yr Amgueddfa o’i weithdrefnau disgyblu.

**Cyfrifon Cryno NHS (Cymru), 1998-99**

3.6  Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi cyfrifon cryno cyrff yr NHS yng Nghymru i’w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 1998-99 a blynyddoedd cynt).  Caiff cyrff yr NHS eu harchwilio gan rai sydd wedi’u henwebu gan y Comisiwn Archwilio. Roedd adroddiad y Rheolwr a’r Archwilydd Cyffredinol ar Gyfrifon Cryno 1998-99 yn cyfeirio at sefyllfa ariannol NHS Cymru yn gyffredinol, sefyllfa ariannol ardaloedd y pum awdurdod iechyd yng Nghymru, esgeulustod clinigol, twyll yn yr NHS a rheoli asedau a chostau cynyddol cyffuriau gofal sylfaenol.

3.7 Clywodd y Pwyllgor Archwilio dystiolaeth gan Gyfarwyddwr NHS Cymru.  Yn fras, dyma gasgliad adroddiad y Pwyllgor:

*"Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw ein sefydliad mwyaf gwerthfawr.  Mae ei enw da wedi dioddef dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn i’w briodoli i raddau sylweddol i’w berfformiad ariannol gwael.  Ni ellir caniatáu i hyn barhau.*

*Rhaid i’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ailadeiladu ei enw da drwy gyflwyno safonau gofal iechyd uchel i bobl Cymru o fewn yr adnoddau a roddir iddo gan y Cynulliad Cenedlaethol.  Anogwn Gyfarwyddiaeth NHS y Cynulliad felly a rheolwyr y gwasanaeth iechyd, clinigwyr a staff i wneud popeth a allant i hyrwyddo rheolaeth ariannol dda, gan gynnwys cymryd camau mwy rhagweithiol i leihau lefel yr achosion o esgeulustod clinigol a’u cost, gostwng lefel twyll, a sicrhau gwerth am arian.  Yn arbennig, disgwyliwn weld diwedd buan ar y cylch parhaus o ddiffygion ariannol yr adroddwyd amdanynt gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau NHS dros y blynyddoedd diwethaf ."*

3.8  Croesawodd Cabinet y Cynulliad yr adroddiad a chytunodd i weithredu ar argymhellion y Pwyllgor parthed rheoli ac arwain strategol, rheoli ariannol, talu biliau yn brydlon, dyrannu adnoddau, rheoli achosion o esgeulustod clinigol, achosion o dwyll, a rheoli costau cyffuriau gofal sylfaenol, ynghyd â materion penodol sy'n ymwneud â chyrff iechyd unigol.  Bydd staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn monitro'r camau hyn yn ofalus.

**Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99**

3.9.  Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau archwiliadau ariannol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru ym 1998-99, y flwyddyn lawn olaf cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol.  Tanlinellodd yr Adroddiad brif nodweddion yr amgylchedd rheoli ariannol a etifeddwyd gan y Cynulliad gan gynnwys llywodraethu a rheoli ariannol, rôl archwiliadau mewnol, llywodraethu corfforaethol, a hynt cyflwyno cyllidebau a chyfrifon adnoddau.  Rhoddwyd y prif sylw, yn ystod sesiwn tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, i gyllidebau a chyfrifon adnoddau, (y cyfrifon tri mis a baratowyd ar gyfer y Swyddfa Gymreig hyd at y dyddiad trosglwyddo swyddogaethau ar 1 Gorffennaf 1999 oedd y cyfrifon adnoddau cyntaf gan adran o Lywodraeth y DU i gael eu harchwilio a'u cyhoeddi'n ffurfiol) a monitro cynlluniau grant.

3.10  Nododd adroddiad y Pwyllgor Archwilio bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol hyder yng nghadernid cyfrifon adnoddau 1999-2000 o dan y system gyfrifo newydd a'i fod yn edrych mlaen at weld cyfrifon awdurdodau iechyd Cymru a chyfrifon 2000-2001 y Cynulliad yn cael eu cyfuno'n llwyddiannus.  Nododd hefyd bod y Pwyllgor yn disgwyl i'r Cynulliad fod yn batrwm i'r cyrff sy'n cael eu noddi ganddo o ran mabwysiadu arferion da wrth gaffael systemau gwybodaeth.  Yn ôl ymateb Cabinet y Cynulliad, roedd camau wedi'u cymryd eisoes i fynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y mater hwn wrth iddo archwilio Cyfrifon Adnoddau'r Cynulliad am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2000.

**Adroddiadau gwerth am arian**

3.11  Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio'r adroddiadau gwerth am arian canlynol ym 1999-2000:

- Diogelu a Chadw Etifeddiaeth Adeiledig Cymru;
- Addysg Bellach yng Nghymru;

Mae argymhellion manwl yr adroddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad E.  Mae Adroddiadau Pwyllgor yn cael eu paratoi ar y pynciau canlynol:

- *Awdurdod Datblygu Cymru:  Rheoli'r Gwaith o Greu'r Awdurdod Mwy ei Faint ac Edrych am Arbedion yn y Dyfodol;*
- *Awdurdod Datblygu Cymru:  Cymorth i Fusnesau Cynhenid Cymru;*

- *Coleg Gwent (yn dilyn y sylw gan y Trysorlys ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli a Llywodraethu Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent)*
- *Argae Bae Caerdydd*

**Diogelu a Chadw Etifeddiaeth Adeiledig Cymru**

3.12 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gwaith a chyfrifoldebau Cadw/Welsh Historical Monuments. Ar ôl sesiwn tystiolaeth Prif Weithredwr Cadw ac Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol, lluniwyd adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio i helpu Cadw gyflawni'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol ac effeithlon ym meysydd diogelu'r etifeddiaeth adeiledig, amodau grant a chymorth ariannol i Gastell y Waun.

3.13 Roedd ymateb Cabinet y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor yn gadarnhaol. Yn y tymor canolig, teimlai Cabinet y Cynulliad y byddai gweithredu casgliadau ac argymhellion yr adroddiad ond yn golygu ychydig o gost ac y byddai'n arwain at gynnydd net sylweddol mewn gwerth am arian. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn 2000-2001. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn amcangyfrif y gellid sicrhau arbedion un-tro o oddeutu £58,000 ac arbedion dro-ar-ôl-tro o £70,000 wrth roi'r casgliadau a'r argymhellion hyn ar waith.

**Addysg Bellach yng Nghymru**

3.14 Roedd adroddiad y Pwyllgor yn disgrifio sawl agwedd ar berfformiad y sector addysg bellach yng Nghymru; ei sefyllfa ariannol; gwaith monitro'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach; llywodraethu sefydliadau; cynllunio strategol a rheoli ariannol; a chaffael nwyddau a gwasanaethau. Cynhaliwyd dwy sesiwn dystiolaeth gan y Pwyllgor Archwilio, un gyda'r Cynulliad a'r Cyngor Cyllido; ac un gyda chynrychiolwyr o ddau goleg, Coleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin a Choleg Ceredigion.

3.15 Daeth y Pwyllgor i'r casgliad hwn:

> "……….. *bod angen i'r Cyngor Cyllido fod â gafael dynnach ar y sector a gwneud yn siŵr bod methiannau mewn llywodraethu a rheoli mewn sefydliadau unigol yn cael eu trin. Mae angen i'r holl sefydliadau yn y sector fwrw ymlaen ag argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ran llywodraethu, cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a chaffaeliad er mwyn gwella eu lefelau rheoli a rheolaeth gyffredinol.*
>
> *Mae'r Pwyllgor yn arbennig o siomedig o weld y methiannau a ddaeth i'r amlwg yn y modd yr oedd y mwyafrif o sefydliadau'n mynd ati i gaffael nwyddau a gwasanaethau. Gellid arbed symiau sylweddol o arian yn y maes hwn a thynnu'r arian yn ôl i'w ddefnyddio ym myd addysg…..*"

3.16.  Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad gan y Cyngor Cyllido o fewn chwe mis ar ôl cyhoeddi ei adroddiad ar hynt gweithredu argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar lywodraethu a rheoli.  Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn 12 mis ar y cynnydd y mae'r sector wedi'i wneud o ran gwella'r ffordd y mae'n caffael nwyddau a gwasanaethau a'r arbedion sydd wedi'u sicrhau a'r rhai sy'n debygol o ddod i law.

3.17  Yn ei ymateb, awgrymodd Cabinet y Cynulliad y dylai'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach sicrhau bod ei ddulliau llywodraethu a rheoli o'r ansawdd gorau a'u bod yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau.  Mae nifer o gamau eisoes wedi'u cymryd i gryfhau rheolaeth a threfniadau monitro, megis cyflwyno Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli (*Governance and Management Development Programme – GMDP*), gwneud y prosesau ôl-archwilio yn fwy llym a phwyso a mesur y risg cyffredinol ym mhob sefydliad ym mhob tymor.  Mae'r Cyngor Cyllido hefyd yn gweithio gyda'r sector ar faterion gwerth am arian, gan gynnwys caffael a pharatoi ar gyfer cam nesaf y GMDP.  Bwriedir mynd i'r afael â gwaith arall y cyfeirir ato yn yr argymhellion manwl yn ystod y flwyddyn nesaf.

3.18  Mae'r sector yn gwario oddeutu £70 miliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau a thrwy arbed cyn lleied â dau y cant byddai £1.5 miliwn y flwyddyn ar gael i'w ddefnyddio ar bethau eraill o fewn y sector.

***Awdurdod Datblygu Cymru:  Rheoli'r Gwaith o Greu'r Awdurdod Mwy ei Faint ac Edrych am Arbedion yn y Dyfodol a Chymorth i Fusnesau Cynhenid Cymru***

3.19  Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ym mis Mai 2000 gan Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, Jon Shortridge, a Phrif Weithredwr yr Awdurdod, Brian Willott ar y ddau adroddiad hyn.  Roedd yr adroddiad ar yr uniad yn cynnwys:  cynllunio a rheoli'r broses uno;  rheoli cost yr uniad a sicrhau arbedion ariannol oddi wrtho; a sicrhau arbedion ariannol ychwanegol wrth redeg yr Awdurdod mwy ei faint.  Er nad yw'r Pwyllgor Archwilio eto wedi llunio ei adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi meysydd lle y gellid sicrhau arbedion ariannol;  ynni - £30,000, rheoli gofod - £125,000 a storio - £27,000.  Mae'r symiau hyn yn ychwanegol at yr arbedion o £2.25 miliwn yn y costau rhedeg i'r Awdurdod o ganlyniad i'r uno.

3.20  Roedd yr adroddiad ar Gymorth i Fusnesau Cynhenid yn rhoi ystyriaeth i brif ddulliau'r Awdurdod o gynorthwyo busnesau cynhenid a'i weithgareddau yn y maes hwn, ynghyd â'i brosesau ar gyfer arfarnu, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei gymorth.  Caiff adroddiad y Pwyllgor Archwilio ei gyhoeddi yn yr hydref.

***Coleg Gwent: (Sylw gan y Trysorlys ar Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli a Llywodraethu Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent)***

3.21 Rhoddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ganiatâd i'r Pwyllgor Archwilio ystyried y Sylw hwn gan y Trysorlys, sef ymateb y Llywodraeth i archwiliad blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r pwnc hwn. Dymunai'r Pwyllgor Archwilio ymchwilio'r cynnydd a oedd wedi'i wneud yn y Coleg ers cyhoeddi adroddiad beirniadol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Ionawr 2000. Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol, Prif Weithredwr y Cyngor Cyllido a Phrifathro'r Coleg, a elwir bellach yn Goleg Gwent, dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y problemau a gododd yn y coleg; beth aeth o'i le; camau a gymerwyd i unioni pethau; a'r goblygiadau ehangach i'r sector yng Nghymru. Caiff adroddiad y Pwyllgor ei gyhoeddi yn yr hydref.

**Argae Bae Caerdydd**

3.22 Yr oedd y pwnc hwn yn destun sesiwn tystiolaeth ym mis Gorffennaf gyda'r Ysgrifennydd Parhaol a Mr Michael Boyce, cyn Brif Weithredwr Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd yn dystion. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â'r meysydd canlynol: cost adeiladu'r argae a chreu llyn dŵr croyw; rhoi'r argae ar waith a'r trefniadau ar gyfer Bae Caerdydd yn dilyn diddymu'r Gorfforaeth Ddatblygu; a'r trefniadau i nodi a rheoli'r ymrwymiadau amgylcheddol a'r rhwymedigaethau posibl sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Rhagwelir y bydd adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar y pwnc hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

**Cyllideb a rhaglen Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2000-2001**

3.23 Yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 1999, cytunodd y Pwyllgor Archwilio y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gael cyllideb o £1,000,000 i gynnal archwiliadau gwerth am arian yn ystod 2000-2001, gyda chyfanswm costau o £2,175,000. Teimlid y byddai hyn yn sicrhau bod cymaint o archwiliadau â phosibl yn cael eu cynnal a'r rheini'n drylwyr ac y byddai'n dangos bod y Pwyllgor yn ystyried y gwariant hwn fel buddsoddiad yn y tymor hwy. Yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol, roedd gan y lefel hon o gyllid y potensial i arwain at arbedion mawr, er y gallai gymryd dwy neu dair blynedd iddynt ddod i'r amlwg. Byddai'n rhaid petruso wrth amcangyfrif yr arbedion, o ystyried nad oedd cwmpas archwiliadau yng Nghymru wedi'u profi eto ac mai 2000-2001 fyddai blwyddyn lawn gyntaf yr Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru.

3.24 Gofynnodd Aelodau i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried cynnwys yr eitemau canlynol yn ei raglen o archwiliadau gwerth am arian yn
2000-2001:

- effeithiolrwydd Awdurdod Datblygu Cymru wrth annog datblygiad diwydiannau cynhenid
- effaith y gwariant ar y prosiect Llywodraeth Leol ar gyfanswm y gwariant yng Nghymru
- dylai'r adroddiad ar drefniadau adeiladau'r Cynulliad gynnwys ystyriaeth o adeilad newydd y Cynulliad

- ystyried grantiau adnewyddu tai yng nghyd-destun yr adroddiad arfaethedig ar ddigartrefedd
- archwilio cyffuriau a ragnodir gan yr NHS nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Cyffurlyfr
- goblygiadau ariannol i'r Cynulliad o gofio ei bod yn ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb ariannol am ansawdd y dŵr ym Mae Caerdydd
- effaith ariannol gofal meddygol preifat (ac eithrio cartrefi nyrsio) ar yr NHS
- rheoli gwastraff yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy a'r rhaglen Gwerth Gorau
- aildrefnu'r NHS ac ymddiriedolaethau'r NHS

Yr oedd rhai o'r eitemau hyn yn rhan o'r rhaglen ar gyfer 2000-2001. Ymgymerir ag eraill yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## 4. GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN Y DYFODOL

4.1 Mae'n debyg y bydd rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio yn 2000-2001 mor amrywiol ag y bu yn ystod ei flwyddyn gyntaf:

- trefniadau adeiladau'r Cynulliad;
- trefniadau ar gyfer diddymu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd;
- ymdrin â hawliadau yn sgil esgeulustod clinigol;
- rhagnodi cyffuriau gan Feddygon Teulu; a
- rheoli ystâd addysg bellach yng Nghymru.

Yn ychwanegol, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu adrodd ar gyfrifon 1999-2000 y Cynulliad Cenedlaethol ac ar gyfrifon cryno NHS (Cymru), yn ogystal â chyhoeddi Adroddiad Cyffredinol ar ei waith archwilio ariannol ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd hefyd yn adrodd os daw ar draws unrhyw faterion penodol o reoleidd-dra neu uniondeb.

4.2 Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2000, bydd y Pwyllgor Archwilio yn ystyried amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i dreuliau ar gyfer 2001-2001, ynghyd â'i raglen arfaethedig o archwiliadau gwerth am arian. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cytuno ar ei raglen ar gyfer tymor yr hydref.

## 5. CRYNODEB

5.1 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol wedi clywed tystiolaeth ac mae wedi adrodd ar ystod eang o faterion yn ystod ei flwydyn gyntaf. Mae'r materion hyn yn ymwneud â sawl agwedd ar waith y Cynulliad Cenedlaethol ac maent wedi darparu gwersi sy'n berthnasol i'r holl sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur yn helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i wario'u harian yn ddoeth ac yn dda.

**Y Pwyllgor Archwilio**
**Hydref 2000**

**Atodiad A**

PWYLLGOR ARCHWILIO – CYLCH GWAITH

**Dyfyniadau Perthnasol o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

**60.-** (1) Bydd y Cynulliad yn sefydlu pwyllgor a elwir yn Bwyllgor Archwilio neu Audit Committee.
(2) Bydd gan y Pwyllgor Archwilio nifer yr aelodau a ddarperir yn y rheolau sefydlog.
(3) Caiff aelodau'r Pwyllgor Archwilio eu hethol gan y Cynulliad o blith aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y pleidiau yn y Cynulliad yn cael ei adlewyrchu yn aelodaeth y Pwyllgor.
(4) Ni chaiff Prif Ysgrifennydd y Cynulliad nac Ysgrifennydd Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Bydd y Cynulliad yn ethol un o aelodau'r Pwyllgor Archwilio i gadeirio'r Pwyllgor ond ni chaiff aelod sy'n cynrychioli'r blaid fwyaf â rôl weithredol ei gadeirio.
(6) Ni chaiff y Cynulliad ddirprwyo unrhyw un o swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio ac eithrio fel a ddarperir gan adran 94(4).

**93.-** (4) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ôl blwyddyn ariannol gyntaf y Cynulliad, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau ei swydd ac yn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
(5) Caiff pob amcangyfrif o'r fath ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.
(6) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn archwilio pob amcangyfrif o'r fath a gyflwynir iddo ac, ar ôl gwneud hynny, bydd yn gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad gydag unrhyw addasiadau y mae'r Pwyllgor yn barnu eu bod yn briodol.
(7) Lle bydd y Pwyllgor Archwilio yn bwriadu gosod amcangyfrif o'r fath gerbron y Cynulliad gydag addasiadau, bydd y Pwyllgor yn gyntaf yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhoi sylw i unrhyw gyngor a roir ganddo.

**94.-** (1) Bydd y Cynulliad yn penodi archwilydd ar gyfer cyfrifon Archwilydd Cyffredinol Cymru.
(4) Caiff y Cynulliad ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio swyddogaeth cymeradwyo cyrff o gyfrifwyr, neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl oddi ar gyrff o'r fath, ond ni chaiff ddirprwyo'r swyddogaethau hynny fel arall.

**96.-** (3) Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru -
(a) archwilio neu ardystio cyfrifon person neu roi adroddiad amdanynt, neu
(b) cynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd person wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau,
os gwneir darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru wneud hynny drwy gytundeb a wneir gan y person naill ai gyda'r Cynulliad neu gydag un o Weinidogion y Goron.
(4) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan baragraff (b) o isadran (3), bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio (neu, cyn yr etholiad cyffredin cyntaf, farn yr Ysgrifennydd Gwladol) ynglŷn â'r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan y paragraff hwnnw.

**100.-** (1) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth iddo ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau.

(2) Ni chaiff isadran (1) ei dehongli fel petai'n rhoi hawl i Archwilydd Cyffredinol Cymru amau haeddiannau amcanion polisi'r Cynulliad.
(3) Wrth ddyfarnu sut mae arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cymryd i ystyriaeth farn y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r ymchwiliadau y dylai eu cynnal o dan yr adran hon.
(4) Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiad am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd ganddo o dan yr adran hon.

**102.-** (1) Caiff y Pwyllgor Archwilio ystyried a gosod gerbron y Cynulliad adroddiad am unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan -
(a) Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu
(b) yr archwilydd a benodir o dan adran 94.
(2) Os bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yn gofyn iddo wneud hynny, caiff y Pwyllgor Archwilio -
(a) ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gymryd tystiolaeth gan brif swyddog cyfrifo'r Cynulliad neu unrhyw swyddog cyfrifo ychwanegol a ddynod o dan adran 98, a
(b) cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a throsglwyddo i'r Pwyllgor hwnnw unrhyw dystiolaeth a gymerir felly.

**103.-** (1) Caiff dogfen y mae'r isadran hon yn gymwys iddi ei chyhoeddi gan y Cynulliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei gosod ger ei fron.
(2) Dyma'r dogfennau y mae isadran (1) yn gymwys iddynt -
(a) unrhyw gyfrifon, datganiad cyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru,
(b) unrhyw gyfrifon neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad gan yr archwilydd a benodwyd o dan adran 94, ac
(c) unrhyw amcangyfrif neu adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad o dan adran 93(6) neu 102(1) gan y Pwyllgor Archwilio.

**ATODIAD B**

## RHEOL SEFYDLOG 12 - Y Pwyllgor Archwilio

### Aelodaeth

12.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys o leiaf saith ac nid mwy nag 11 o Aelodau ac fe'i cadeirir gan aelod o grŵp gwleidyddol nad yw wedi'i gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad. Ni all aelod o Gabinet y Cynulliad fod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

**Cyfrifoldebau**

12.2 Bydd y Pwyllgor:

(i) yn arfer y swyddogaethau a nodir yn adran 93(6)-(7) o'r Ddeddf ynglŷn ag amcangyfrifon a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(ii) yn cyflwyno sylwadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru o bryd i'w gilydd ar y ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei bwerau i wneud ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

(iii) yn arfer unrhyw swyddogaethau ynglŷn â chymeradwyo cyrff cyfrifwyr a ddirprwyir iddo gan y Cynulliad o dan adran 94(4); a

(iv) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar waith y Pwyllgor.

12.3 Caiff y Pwyllgor:

(i) adrodd i'r Cynulliad yn unol ag adran 102(1) o'r Ddeddf ar ddogfennau a osodir ger ei bron gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd y swyddog hwnnw; a

(ii) cymryd tystiolaeth ac adrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin os gofynnir iddo wneud hynny gan y Pwyllgor hwnnw.

12.4 Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan baragraff 12.3(i) ni fydd y Pwyllgor yn amau rhagoriaethau amcanion polisi'r Cynulliad nac amcanion polisi unrhyw gorff neu berson arall sy'n destun adroddiad gan y Pwyllgor.

12.5 Pryd bynnag y bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o dan baragraff 12.3(i), bydd yn anfon copi at y Prif Ysgrifennydd. Cyn pen mis ar ôl i'r Prif Ysgrifennydd gael yr adroddiad, bydd Ysgrifennydd Cynulliad, ar ran Cabinet y Cynulliad, yn gosod gerbron y Cynulliad ymateb i adroddiad y Pwyllgor; ac os ymateb dros dro yw hwnnw, bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn gosod ymateb terfynol gerbron y Cynulliad cyn pen dau fis arall.

**Cyfarfodydd**

12.6 Bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar ei raglen waith drwy ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Gall yr Archwilydd Cyffredinol fynychu cyfarfodydd preifat y Pwyllgor, gyda chaniatâd y cadeirydd neu ar ei gais.

12.7 Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor gymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried unrhyw fater sy'n codi mewn maes lle y mae ef neu hi, neu yr oedd ar yr adeg berthnasol, yn aelod o'r pwyllgor pwnc perthnasol. Os datgymhwysir y cadeirydd fel hyn rhag cymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried unrhyw fater, bydd y Pwyllgor yn ethol aelod arall i'w gadeirio pan fydd y mater hwnnw yn cael ei ystyried. Ni chaiff y Pwyllgor ethol unrhyw aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli yng Nghabinet y Cynulliad yn gadeirydd dros dro. Lle datgymhwysir aelod o'r Pwyllgor fel hyn, caiff y grp gwleidyddol priodol enwebu am aelodaeth dros dro o'r Pwyllgor aelod arall o'r grp nad yw, neu nad oedd ar adeg berthnasol, yn aelod o'r pwyllgor pwnc perthnasol ac yr hysbyswyd ei enw ymlaen llaw i'r cadeirydd. Caiff y cynrychiolydd enwebedig gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor ym mhob ffordd fel petai ef neu hi'n aelod ohono. Ni chaiff y cynrychiolydd enwebedig fod yn aelod o Gabinet y Cynulliad. Ni chaiff unrhyw aelod gynrychioli mwy nag un pwyllgor mewn cyfarfod.

**Gwysio Tystion a Dangos Dogfennau**

12.8 Wrth baratoi unrhyw adroddiadau, bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth yn ôl yr angen gan Brif Swyddog Cyfrif y Cynulliad neu gan Swyddogion Cyfrif eraill a chanddynt gyfrifoldebau sy'n berthnasol i'r materion o dan sylw.

12.9 Yn unol ag adran 74 o'r Ddeddf, gall y Pwyllgor benderfynu gwysio tystion neu fynnu bod dogfennau yn cael eu dangos. Bydd unrhyw gynnig o'r fath yn enwi'r personau sydd i'w gwysio neu'r dogfennau sydd i'w dangos.

12.10 Pan fydd y Pwyllgor wedi penderfynu gwysio tystion neu orchymyn bod dogfennau yn cael eu dangos, bydd y cadeirydd yn hysbysu'r Llywydd ynglŷn â thelerau'r penderfyniad, ac yn gofyn i'r Llywydd roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw bersonau perthnasol. Bydd y cyfryw hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth a bennir yn adran 74(6) o'r Ddeddf, ac yn cydymffurfio â gofynion adran 74(7).

12.11 Gall fod yn ofynnol i berson sydd wedi'i wysio i fynychu'r Pwyllgor Archwilio dyngu llw (neu roi cadarnhad). Os bydd unrhyw un o'r swyddogion a bennir yn adran 75(1)(a) o'r Ddeddf yn absennol, neu os yw'r cadeirydd wedi'i ddatgymhwyso rhag cymryd rhan wrth i'r Pwyllgor ystyried y mater o dan baragraff 12.7, gall cadeirydd dros dro y Pwyllgor weinyddu'r llw (neu'r cadarnhad).

12.12 Lle bydd llw i'w dyngu neu gadarnhad i'w wneud o dan baragraff 12.11, bydd ar y ffurf a nodir ym mharagraff 9.17.

**ATODIAD C**

## AELODAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd ar 5 Ebrill 2000:

| | | |
|---|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Democrat Rhyddfrydol | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Ceidwadwr | Gorllewin De Cymru |
| Jane Davidson | Llafur | Pontypridd |
| Geraint Davies | Plaid Cymru | Rhondda |
| Brian Gibbons | Llafur | Aberafan |
| Alison Halford | Llafur | Delyn |
| Dafydd Wigley | Plaid Cymru | Caernarfon |

Bu Christine Chapman (Llafur: Cwn Cynon) ac Alun Pugh (Llafur: Gorllewin Clwyd) yn aelodau o'r pwyllgor rhwng 23 Mehefin, 1999 a 5 Ebrill, 2000.

**ATODIAD D**

## ADRODDIADAU Y PWYLLGOR ARCHWILIO, MAWRTH - HYDREF 2000

| Rhif y adroddiad | Teitl | Dyddiad Gyhoeddi |
|---|---|---|
| 00-01 | Diogelu a Chadw Treftadaeth Adeiledig Cymru | 10 Mawrth 2000 |
| 00-02 | Taliad afreolaidd a wnaed I gyn Gyfarwyddyd Cynorthwyol Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 12 Mai 2000 |
| 00-03 | Addysg Bellach yng Nghymru | 9 Mehefin 2000 |
| 00-04 | Adroddiad ar Gyfrifon Cryno NHS (Cymru) 1998-99 | 13 Gorffenaf 2000 |
| 00-05 | Adroddiad Cyffredinal Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99 | 23 Awst |

**ATODIAD E**

**ARGYMHELLION ADRODDIADAU PWYLLGOR ARCHWILIO YN YSTOD Y CYFNOD 1999-2000**

**Adroddiadau Archwilio Ariannol**

**ADRODDIAD 00-02 - TALIAD AFREOLAIDD A WNAED I GYN GYFARWYDDYD CYNORTHWYOL AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU**

***I Gynulliad Cenedlaethol Cymru***

(i) Dylai'r gofyniad bod rhaid sicrhau cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer trafodion newydd a chynhennus fod yn glir yn y Memoranda Ariannol ar gyfer pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

(ii) Dylai swyddogion y Cynulliad gwblhau'r adolygiad o Ddatganiadau Rheoli a Memoranda Ariannol ei holl gyrff cyhoeddus a noddir mor gyflym â phosibl. Dylai adrannau noddi yn y Cynulliad ymdrechu I sicrhau bod y dogfennau hyn yn gyfoes, yn glir ac yn ddiamwys yn y dyfodol.

(iii) Dylai Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad adolygu priodoldeb ac amseriad y sesiynau sefydlu a'r hyfforddiant arall a gynigir I Swyddogion Cyfrifo. Yn enwedig, dylid ystyried y manteision a allai ddeillio o gynnal cyrsiau diweddaru rheolaidd, a'r rheiny o naws ymarferol o bosibl a chan gynnwys astudiaethau achos.

(iv) Dylai swyddogion y Cynulliad atgoffa pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad bod rhaid iddynt fod ag arferion cyflogi cadarn ar waith, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu di-fwlch, ac y dylid cadw at y rhain bob amser.

***I Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru***

(v) Dylai'r Amgueddfa ystyried yn ofalus a oes rhesymau dros gymryd camau cyfreithiol yn erbyn ei chyfreithwyr, mewn perthynas â'u hanwybodaeth I bob golwg o'r fframwaith cydymffurfio a rheoleiddio y mae eu cleient yn gweithredu o'I fewn.

(vi) Dylai'r Amgueddfa gwblhau adolygiad o'I gweithdrefnau disgyblu, a hynny ar frys.

***Argymhellion cyffredinol I'r sector cyhoeddus yng Nghymru***

(i) Ni ddylid defnyddio arian cyhoeddus I derfynu cyflogaeth aelod o staff yn hytrach na chymryd camau disgyblu mewn achosion lle byddai'n fwy priodol gweithredu felly.

(ii) Ni ddylai cyrff yn y sector cyhoeddus ddefnyddio absenoldeb salwch mewn achosion lle byddai'n fwy priodol I wahardd yr aelod o staff dan sylw, cyn cynnal ymchwiliad llawn I'r honiadau.

(iii) Dylai'r holl gyrff ystyried sut orau I fynd I'r afael â'r gwarth sydd ar hyn o bryd yn gysylltiedig â "gwaharddiad", fel y gellir ei ystyried yn fwy priodol fel gweithred niwtral, sydd heb fod yn awgrymu bod person yn euog neu'n ddi-euog.

(iv) Lle mae cytundebau ymadael ffurfiol yn ymrwymo corff I ddarparu tystlythyr ysgrifenedig ar gyfer yr unigolyn o dan sylw, dylai'r sawl sy'n ei ysgrifennu roi ystyriaeth ofalus I'w eiriad er mwyn sicrhau na all darpar gyflogwyr yn y dyfodol gamddeall ei ystyr neu achosi perygl o ymgyfreithiad. Ni ddylai cytundebau ymadael o'r fath gynnwys cymalau cyfrinachedd.

**ADRODDIAD 00-04 - ADRODDIAD AR GYFRIFON CRYNO NHS (CYMRU) 1998-99**

***Ar iechyd ariannol yr NHS yng Nghymru drwyddo draw***

(i) Anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i weithio'n agosach gyda chyrff iechyd ar draws Cymru, gan roi rheolaeth strategol ac arweiniad gwirioneddol i'r gwasanaeth;

(ii) Edrychwn tuag at Gyfarwyddiaeth yr NHS i weithredu i sicrhau bod ymddiriedolaethau NHS yn gallu cyflawni'r arbedion y proffwydwyd y byddent ar gael yn sgîl ad-drefnu'r ymddiriedolaethau NHS yng Nghymru, a nodwn ein bwriad i fwrw golwg manwl ar lwyddiant y rhaglen hon maes o law;

(iii) Anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i weithredu'n briodol i sicrhau bod pob corff NHS yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain ar Dalu Cyflenwyr, gan weithredu yn unol â pholisi'r Llywodraeth yn y cyswllt hwn;

***Ar iechyd ariannol ardaloedd pum awdurdod iechyd Cymru***

(iv) Os digwydd yn y dyfodol y bydd ar ymddiriedolaethau NHS angen cymorth ariannol ychwanegol oddi wrth y Cynulliad, argymhellwn fod Cyfarwyddiaeth yr NHS yn ystyried sianelu'r gefnogaeth honno yn uniongyrchol i'r ymddiriedolaethau dan sylw;

(v) Yng nghyswllt Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin, a'i hanawsterau ariannol ar hyn o bryd, anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i weithio'n agos gyda'r ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Dyfed Powys i gywiro unrhyw ddiffygion yn eu Cynllun Adfer yn enwedig o safbwynt lefel y realaeth yn y Cynllun a sicrhau bod gwasanaethau i gleifion yn cael eu gwarchod;

(vi) Nid yw'r peirianwaith presennol ar gyfer dyrannu adnoddau mwyach yn fuddiol ac nid yw'n rhoi sylw digonol i'r pwysau amrywiol a gwahanol o ran costau sy'n effeithio ar gyrff NHS ar draws Cymru. Anogwn

Gyfarwyddiaeth yr NHS felly, mewn ymgynghoriad agos â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i weithredu'n gyflym ar ganlyniadau arolwg y fformiwla gyllido sydd ar y gweill ar hyn o bryd a sefydlu system sy'n cydnabod ffactorau o'r fath ac yn rhoi setliadau ariannol blynyddol teg a chyfiawn;

***Ar esgeulustod clinigol***

(vii) O safbwynt rheoli esgeulutod clinigol gan yr NHS yng Nghymru, argymhellwn yn gryf fod Cyfarwyddiaeth yr NHS yn gweithredu i ganfod a lledaenu enghreifftiau o'r ymarfer gorau mewn rheolaeth ariannol ar draws NHS Cymru;

(viii) Dylai mwy o dryloywder wrth ddadlennu manylion meddygol i achwynydd ddod yn drefn safonol. Anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i roi sylw i'r mater hwn yn rhannol drwy newidiadau yn addysg a hyfforddiant staff meddygol ac i gymryd rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu diwylliant o fod yn agored a chyfathrebu'n dda;

***Ar dwyll***

(ix) Nid yw cost lawn twyll yn yr NHS yng Nghymru yn hysbys, ac mae angen gwelliannau sylweddol o ran canfod ac atal twyll. Anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i fynd i'r afael â'r broblem hon fel mater o frys, ac yn enwedig i ystyried y defnydd posibl o gymhellion "gwario i arbed" a fyddai'n caniatáu i unrhyw arbedion a grëir gael eu rhyddhau'n uniongyrchol ar gyfer gofalu am gleifion;

(x) Hyd yma, canolbwyntiwyd yn bennaf ar y sector gofal sylfaenol wrth fynd i'r afael â thwyll. Anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i roi sylw hefyd i'r perygl o dwyll yn y sector gofal eilaidd, gan roi sylw dyledus i'r risg gymharol o dwyll sydd ymhlyg yn y sector;

***Ar gost cyffuriau gofal sylfaenol***

(xi) Cydnabyddwn fod yr NHS yn cymryd camau i reoli cost gynyddol cyffuriau gofal sylfaenol. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymchwilio i'r maes hwn, ac argymhellwn yn gryf fod canfyddiadau'r Grŵp yn cael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth a, lle bo hynny'n briodol, eu rhoi ar waith gan Gyfarwyddiaeth yr NHS ar y cyfle cyntaf posibl;

(xii) Mae opsiynau eraill ar gael hefyd i fynd i'r afael â chostau cynyddol cyffuriau gofal sylfaenol, ac anogwn Gyfarwyddiaeth yr NHS i ddatblygu strategaeth gydlynus, a fydd yn cynnwys ystyried materion megis gwneud mwy o ddefnydd o gyffuriau generig, ailddatblygiadau cyd-fformiwlâu, cynlluniau cymhellion o ran presgripsiynau a pha mor gyffredin yw rhoi ail-bresgripsiynau.

**ADRODDIAD 00-05 - ADRODDIAD CYFFREDINOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU: ARCHWILIAD ARIANNOL O GYFRIFON 1998-99**

i) Disgwyliwn i staff y Cynulliad gymryd camau unioni angenrheidiol i sicrhau y cyfunir awdurdodau iechyd Cymru â chyfrifon 2000-2001 y Cynulliad;
ii) Edrychwn i gyfeiriad staff Cyllid y Cynulliad am sicrwydd nad yw'r Ysgrifennydd Parhaol wedi cael achos ar gam i fod yn hyderus yng nghryfder cyfrifon adnoddau 1999-2000;
iii) Disgwyliwn i'r Cynulliad fod yn batrwm ar gyfer y cyrff a noddir ganddo wrth fabwysiadu'r arfer gorau o ran prynu systemau gwybodaeth;
iv) Edrychwn i gyfeiriad y tîm prosiect sydd â'r gorchwyl o weithredu'r system gyfrifo newydd i roi adroddiadau cywir ac amserol ar gynnydd i uwch reolwyr, er mwyn i gamau unioni priodol gael eu cymryd ar y cyfle cyntaf, lle bo angen;
v) Anogwn yr holl bartïon cyfrannog yn y trafodaethau sydd ar y gweill am bris presgripsiynau i ddod i gytundeb cyflym sy'n rheolaidd, teg a chyfiawn i fferyllwyr a'r trethdalwr, fel ei gilydd; ac
vi) Argymhellwn y dylid rhoi amlygrwydd i faterion llywodraethu corfforaethol yn Adroddiad Blynyddol y Cynulliad ac anogwn yr Ysgrifennydd Parhaol i roi crynodeb blynyddol i Aelodau'r Cynulliad o waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**Adroddiadau Gwerth am Arian**

**ADRODDIAD 00-01 - DIOGELU A CHADW TREFTADAETH ADEILEDIG CYMRU**

(i) Dylai'r nod o gofrestru'r mwyafrif o henebion gwybyddus o fewn rhwng pump a saith mlynedd ddod yn darged penodol i Cadw a dylid gwneud adroddiad blynyddol ar ei gynnydd yn y maes hwn yn ôl y targed hwnnw.

(ii) Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i lunio cofrestr i Gymru o adeiladau mewn perygl.

(iii) Cyn gynted â phosibl dylai Cadw sicrhau ei hawl i adfachu grant wrth waredu eiddo y talwyd grant cynnal-a-chadw ar ei gyfer. Wrth wneud hyn dylai Cadw, fel mater o frys, archwilio'r dewisiadau sydd ar gael iddo i sicrhau diogelwch cyfreithiol cryfach o'i fuddiannau yn yr adeiladau hyn.

(iv) Dylai Cadw geisio negodi trefniadau mwy addas gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ran cynorthwyo cyllido Castell y Waun. Credwn y dylai'r rhain gynnwys, er enghraifft, gofnodi credydau aelodau yn erbyn y diffyg ariannol o ran cynnal-a-chadw.

(v) Yn y dyfodol, dylai unrhyw geisiadau am grantiau i Gastell y Waun fod yn amodol ar werthusiad ariannol manwl er mwyn penderfynu a yw lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn yr eiddo, gan gynnwys y gronfa wrth gefn o refeniw sydd wedi crynhoi, gyfiawnhau cefnogaeth ariannol ychwanegol o'r natur hon.

(vi) Dylai Cadw gysylltu cyllido ar gyfer Castell y Waun â'r cronfeydd a ddyrennir i adeiladau eraill sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar berchnogion ar adeiladau hanesyddol eraill.

**ADRODDIAD 00-03 - ADDYSG BELLACH YNG NGHYMRU**

i) Rydym yn croesawu'r cynnydd cyllid mewn termau gwirioneddol y mae'r sector yn ei dderbyn, ond yn pwysleisio bod angen i sefydliadau gadw rheolaeth dynn dros gyllid a defnyddio'r cyllid ychwanegol yn ddoeth i ddarparu cyrsiau perthnasol ychwanegol neu i gynyddu niferoedd y myfyrwyr mewn addysg bellach. Yn arbennig, rydym am weld colegau'n cynyddu eu darpariaeth o gyrsiau Cymraeg a dwyieithog.

ii) Dylai bod gan bob un o'r sefydliadau strategaeth adnoddau dynol fanwl a dylid sicrhau nad yw costau staff yn codi'n gynt na'r cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr a'r cynnydd yng ngrantiau'r Cyngor Cyllido. Dylai'r Cyngor Cyllido ddarparu canllawiau manwl ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys mewn strategaeth adnoddau dynol a dylai wneud asesiad ffurfiol o strategaethau adnoddau dynol pob un o'r sefydliadau yn flynyddol.

iii) Dylai'r Cyngor Cyllido ddarparu canllawiau pellach ynghylch y modd y dylai sefydliadau ddefnyddio cyllid Ewropeaidd er mwyn gwarchod gweithgareddau craidd pe bai cyllid o'r fath yn lleihau yn y dyfodol.

iv) Dylai'r Cyngor Cyllido ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad wneud ardystiad allanol o'i ragolygon pum-mlynedd a'i ragolygon yng nghanol y flwyddyn.

v) Dylai'r Cyngor Cyllido ei gwneud yn flaenoriaeth i weithio gyda'r sefydliadau i oresgyn y problemau presennol gyda chynhyrchu data meincnodi er mwyn sicrhau bod y sector yn derbyn data cywir ac amserol y gall ei ddefnyddio i wneud arolwg o'i berfformiad ei hun.

vi) Dylai'r Cyngor Cyllido roi blaenoriaeth i gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig i lywodraethwyr a datblygu pecynnau hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr.

vii) Rydym o'r farn bod gwerthusiad ffurfiol a chyson o'r Pennaeth yn ofyniad holl bwysig ar gyfer y sefydliadau i gyd.

viii) Byddai'r Pwyllgor yn dymuno derbyn adroddiad, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi ein hadroddiad, ar arolwg y Cyngor Cyllido o lwyddiant y sector i weithredu argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar wella llywodraethu a rheoli. Dylai'r arolwg hwn gynnwys y 28 sefydliad sydd yn y sector.

ix) Dylai'r sefydliadau i gyd sicrhau bod eu Cyrff Llywodraethu'n cynnwys y sgiliau angenrheidiol, eu bod yn adlewyrchiad o'r bobl sy'n byw yn y gymuned leol ac yn darparu cydbwysedd dynion/merched.

x) Dylai'r wyth sefydliad nad ydynt yn cynhyrchu cynlluniau strategol derbyniol weithio gyda'r Cyngor Cyllido i wella eu trefniadau cynllunio a dylent fabwysiadu'r arferion da a ddefnyddir gan Goleg Technoleg a Chelf Sir Gaerfyrddin.

xi) Rydym yn argymell bod y Cyngor Cyllido yn gweithio gyda sefydliadau i wella eu cyllido, yn arbennig ym maes proffilio cyllidebau.

xii) Dylai'r sefydliadau i gyd fabwysiadu'r argymhellion a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wella eu caffaeliad nwyddau a gwasanaethau ac i geisio gwneud arbedion ariannol yn y meysydd hynny.

xiii) Dylai bod gan y sefydliadau i gyd naill ai swyddog prynu neu reolwr hŷn â chyfrifoldeb dynodedig dros gaffaeliad.

xiv) Dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru ddarparu adroddiad pellach ar gyfer y Pwyllgor, 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar raglen y sector ar gyfer gwelliannau i gaffaeliad a'r arbedion a wnaed eisoes ac y gobeithir eu gwneud yn y dyfodol.

xv) A chymryd y bydd yn llwyddiant, dylai'r sefydliadau sy'n weddill ymuno â'r consortiwm prynu arfaethedig cyn gynted â phosib.

xvi) Dylai'r Cyngor Cyllido ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau i gyd wneud arolwg o'r holl wasanaethau y maent yn eu defnyddio a'u profi ar y farchnad lle bynnag y bo hynny'n bosib.

xvii) Fel rhan o adroddiad pellach yr Archwilydd Cyffredinol byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth ynghylch y nifer o sefydliadau sydd wedi profi gwasanaethau allweddol ar y farchnad a'r arbedion a wnaed o ganlyniad I hyn.

xviii) Dylai'r sefydliadau i gyd gyflwyno strategaeth rheoli ynni - gan ddilyn yr esiampl o arfer sy'n cael ei rhoi gan y sefydliadau y mae ganddynt strategaethau eisoes - a dylent ymestyn y rhain fel sy'n briodol i'r holl gyfleusterau.